

Gwers 8 – Côt arbennig Joseff

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Genesis 37:1–11

Yn dilyn ei weithredoedd twyllodrus, ffodd Jacob o'i gartref a theithiodd tua Haran lle'r oedd ei ewythr Laban yn byw. Ar y ffordd, cafodd brofiad ysgytwol. Roedd wedi gorwedd i gysgu yn yr awyr agored, gyda charreg yn obennydd a chafodd freuddwyd. 'Breuddwydiodd ei fod yn gweld ysgol wedi ei gosod ar y ddaear, a'i

phen yn cyrraedd i'r nefoedd, ac angylion Duw yn dringo a disgyn ar hyd-ddi' (Genesis 28:12). Clywodd Dduw yn dweud wrtho, 'Myfi yw'r Arglwydd, Duw Abraham dy dad, a Duw Isaac' (Genesis 28:13a). Ail adroddir y cyfamod gan Dduw (Genesis 28:13b–14). Roedd y profiad yn drobwynt yn hanes Jacob – byddai'n troi ei gefn ar fywyd twyllodrus ac yn ymddiried yn Nuw. Gosododd y garreg a fu'n obennydd iddo yn golofn a thywallt olew drosti a dweud, 'Mor ofnadwy yw'r lle hwn! Nid yw'n ddim amgen na thŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd' (Genesis 28:17). Galwodd y lle yn Bethel ac addawodd os cai ei gadw'n ddiogel a'i arwain i dŷ ei dad, byddai'r Arglwydd yn Dduw iddo (Genesis 28:20:22).

Cafodd Jacob noddfa yn Haran gyda'i ewythr, Laban, ac yno, syrthiodd mewn cariad â Rachel ond fe'i twyllwyd a phriododd ei chwaer hŷn, Lea; yr ail fab a dwyllodd i fod yn gyntaf, yn cael ei dwyllo ac yn priodi'r ferch gyntaf–anedig yn hytrach na'r ail–anedig! Ganwyd chwech o feibion i Lea a Jacob; dau o feibion i Rachel a Jacob; dau o feibion i Jacob a Bilha, morwyn Rachel, a dau o feibion i Jacob a Silpa, morwyn Lea (Genesis 35:23–26). Rachel oedd hoff wraig Jacob, a'u dau fab, Joseff a Benjamin, oedd ei ffefrynnau.

Gall ffafriaeth, yn aml iawn, arwain at ganlyniadau enbyd. Roedd Joseff yn hel straeon am ei hanner brodyr, Dan, Nafftali, Gad ac Aser, i'w dad. Gwnaeth Jacob wisg laes, neu wisg o frodwaith addurniadol, i Joseff. Dechreuodd Joseff freuddwydio breuddwydion hunan-ddyrchafol, gyda'r dehongliad y byddai holl aelodau'r teulu yn ymgyrnu o'i flaen. Proffwydoliaethau oedd y breuddwydion, ond problem fwyaf Joseff oedd diffyg doethineb a synnwyr cyffredin yn ei ymwneud â'i deulu. Enynnodd agwedd falch Joseff genfigen yn ei frodyr tuag ato.

Y Patriarchiaid

Ceir sawl cyfeiriad yn y Testament Newydd at Y Patriarchiaid, sylfaenwyr neu gyn-dadau'r genedl Iddewig, Abraham, Isaac a Jacob (gweler Mathew 22: 32 ac Actau 3:13). Ychwanegir hefyd feibion Jacob (Actau 7:7,8).

Meibion Jacob a ddeuddeg llwyth Israel

Rhoddwyd enwau meibion Jacob ar ddeuddeg llwyth Israel. Oherwydd y modd y bu i Simeon a Lefi ddial ar dreiswyr eu chwaer Dinah, difeddianwyd Simeon o'i etifeddiaeth (Genesis 34 a 49:7), ac aeth Lefi yn urdd offeriadol.

Siaced Joseff

Yn y gorffennol, ystyrid mai ystyr y gair Hebraeg **pas** oedd siaced wedi ei gwneud o ddarnau amryliw, a dyna sail 'siaced fraith' y Beibl Cysger-Lân. Bellach tybir ei fod yn cyfeirio at wisg oedd yn cyrraedd at y fferau, a dyna sail 'gwisg laes' yn y Beibl Cymraeg Newydd (gweler 'Hen Destament 1988- Cydymaith i'r Cyfieithiad Newydd' – Gwilym H Jones.)



Roedd gan Jacob deulu mawr, ond roedd yn caru ei fab, Joseff, yn fwy na'i feibion eraill i gyd.
Beth mae Joseff yn ei wisgo yma? Una'r dotiau i weld.
Darllen y stori gyfan yn Genesis 37:3-4.

Gwers 8 – Cot arbennig Joseff

Joseff a'i frodyr | Genesis 37

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 38



Gwers 8

Côt Arbennig Joseff

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed

Côt arbennig Joseff tud 38

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7 oed

Brodyr yn cenfigennu Joseff tud 38

BEIBL LLIW STORI DUW

Mab arbennig Jacob tud 37

BEIBL BACH STORI DUW

Y tywysog oedd yn fodlon maddau tud 76

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Joseff y breuddwydiwr tud 22

BEIBL LLIW Y PLANT

Breuddwyd Joseff tud 57

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Joseff a'i frodyr tud 34

BEIBL BACH I BLANT

Y Brodyr Cas tud 74

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Joseff y bachgen Helynt gartref tud 43

BEIBL LLIW Y TEULU

Breuddwydion Joseff tud 30

Gwerthu Joseff tud 31

I Ddechrau ...

Rasys Gyfnewid

1. Ras Gyfnewid – gwisgo i fyny

Bydd angen bag o ddillad amrywiol a fydd yn ddigon mawr/bach i'r plant eu gwisgo. Hefyd, angen digon o eitemau i bob tîm gael yr un nifer o eitemau.

Rhannwch y plant yn ddimoedd i sefyll gyferbyn â'r bag, sy'n cael ei osod ym mhen draw'r ystafell. Mae aelodau o'r timoedd yn cymryd tro i redeg at y bag, dewis eitem, ei wisgo a dychwelyd at ei d/thîm. Maent i'w "dadwisgo" a'i rhoi i'r aelod nesaf i wisgo cyn iddynt hwy gychwyn i nôl eitem. Mae'r aelod yna'n tynnu'r ddwy eitem a'u pasio i'r aelod nesaf. Parhewch nes bod yr eitemau i gyd wedi cael eu gwisgo. Gallwch roi gwobr fechan i'r tîm sydd â'r model mwyaf "ffasiynol."

Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n hoffi prynu dillad newydd? Rhowch gyfle iddynt ddweud beth yw eu hoff ddillad. Esboniwch y byddwch yn clywed hanes am ddyn a gafodd gôt arbennig iawn ond bod y gôt wedi dod â phroblemau iddo.

2. Ras Gyfnewid – gwneud brechdan

Rhannwch y grŵp yn 2/3 tîm (dibynnu faint sydd yn y grŵp). Nod y gêm yw bod pob aelod o'r tîm yn cymryd tro i wneud brechdan a'i bwyta – y tîm sy'n gorffen gyntaf sy'n ennill. Bydd angen tafellau o fara, margarîn, jam/mêl, cylyll a phlatiau. Gellir torri'r bara i chwarteri i'r plant iau fel eu bod ond defnyddio un chwarter, neu yn hanner i'r plant hŷn ddefnyddio hanner yr un.

Mae'r plant yn cymryd tro i daenu'r margarîn a'r jam a bwyta'r frechdan. Ar ôl gorffen bwyta caiff yr aelod nesaf ddod ymlaen i gael tro ac yn y blaen nes bod pob aelod o'r tîm wedi bwyta. Cofiwch am yr angen i fod yn ymwybodol o unrhyw alergedd, ac o lanweithdra.

Trafodwch sut y mae bara yn cael ei gynhyrchu ac os yn bosibl, cael gwenith a grawn i ddangos i'r plant. Esboniwch fod grawn yn fwyd pwysig iawn trwy'r byd a bod llawer o'r bwydydd rydym yn eu mwynhau yn deillio o rawn. Dangoswch rai enghreifftiau, megis creision yd a grawnfwydydd eraill, cracers a ffyn bara.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Llinell Amser

Bydd angen y Llinell Amser a Beiblau.

Defnyddiwch y llinell amser i osod Joseff yn ei gyfnod. Trafodwch y ddau lun cyntaf, llun y creu, hanes Noa a hanes Abraham. O'r ail lun, gwelwn fod Abraham yn byw mewn pabell ac yn hen ddyn, ond cafodd addewid gan Dduw y byddai'n Dad i deulu mawr ac yn cael gwlad arbennig i fyw ynddo. Esboniwch fod Isaac yn fab i Abraham; Jacob yn wŷr iddo a Joseff yn or-wŷr iddo. Gofynnwch i'r plant pwy yw eu tad, a'u taid, ac a ydynt yn 'nabod tad eu taid? (Cofiwch fod yn sensitif yma i amgylchiadau'r plant.) Darllenwch hanes Joseff sydd o dan y llinell amser. Ymhelaethwch ar yr hanes fel y dymunwch.

Cymhwys

Trafodwch beth sy'n ein hachosi i fod yn genfigennus o eraill. Byddwch yn barod i rannu hanes personol gyda'r plant, a'u hannog i rannu eu profiadau hwythau. Pam oedd brodyr Joseff yn genfigennus ohono ef? Ydy Duw yn hapus pan fyddwn yn genfigennus? Darllenwch Philipiaid 4:12 gyda'r plant. Beth oedd profiad yr apostol Paul? Sut allwn ni fod yn bobl fodlon? Beth ddylwn ni ei wneud os ydym yn cael trafferth i fod yn fodlon ac yn teimlo'n genfigennus?

Efallai yr hoffech rannu'r plant yn barau a'u gwahodd i greu 'sgets' fer yn cyflwyno achos o 'genfigen'. Cofiwch roi digon o esiamplau iddynt ac i adael amser i bawb cyflwyno'r sgetsis.

Adnod i'w dysgu

"Bu'r Arglwydd gyda Joseff, a daeth yn wŷr llwyddiannus", (Genesis 39:2 – gweler Atodiad 2).

Dysgwch yr adnod fel "siant". Adroddwch un cymal ar y tro gyda'r plant yn ei hail-adrodd ychydig o weithiau cyn rhannu'r plant yn ddau dîm. Wedyn, caiff un tîm adrodd cymal a'r llall ei hail-adrodd.

'Bu'r Arglwydd – Bu'r Arglwydd
Gyda Joseff – Gyda Joseff
A daeth yn wŷr – a daeth yn wŷr
Llwyddiannus – llwyddiannus.
Genesis 39 – Genesis 39
Adnod 2 – Adnod 2
Teimlwch yn rhydd i glapio/clicio bysedd i'r traw'.

Gweddi

Meimiwch ddigwyddiad cyfarwydd i'r plant sy'n digwydd bob dydd/ yn aml, e.e. brwsio dannedd, darllen llyfr, cysgu, bwyta. Ar ôl i'r plant ddyfalu eich meim, gofynnwch iddynt "Pwy sydd yn gofalu amdanom pan fyddwn yn...", gan eu hannog i weiddi'r ateb "Duw."

Gofynnwch i'r plant i ddod, yn eu tro i feimio i'r plant eraill a chyn mynd ymlaen i'r meim nesaf gofynnwch i'r plentyn sydd wedi meimio i adrodd gweddi syml, "Diolch Dduw am edrych ar fy ôl pan fyddaf yn cysgu/ chwarae/bwyta/mynd i'r ysgol/gwyllo teledu."

Cân

"Iesu 'dyn ni'n canu dy glod", Y Cyntaf a'r Olaf, Curiad

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Joseff yn cael breuddwydion aflonydd tud.17

Gwerslyrau Golau ar y Gair

Joseff yn yr Aifft

Tafleini gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Joseff

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 7: Joseff y Bruddwydiwr
Stori 8: Joseff a Brenin yr Aifft

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 272

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 8: Y Brodyr Cas
Cyflwyniad 9: Joseff a'r Brenin

Powerpoint ar wefan visionforchildren.co.uk

Hanes Joseff

Llyfrau Stori

Ffwrdd â thi, frawd bach 1.25
Joseff a'i Freuddwydion 75c

